**Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol o'r Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

08 Mawrth 2024

## 1. Disgrifiad

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Gwneir y rheoliadau yn unol â phwerau o dan adrannau 125, 203 (9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae adrannau 125 a 126 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau deintyddol perthnasol. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 yn darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am driniaeth ddeintyddol ac am gyflenwi gwasanaethau deintyddol.

Bydd yr offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cyn 2006, roedd ffioedd deintyddol yng Nghymru yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r codiad mewn ffioedd gan y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion (DDRB) yn amodol ar uchafswm ffi fesul claf o £354.00. O dan y system bresennol, adolygir ffioedd cleifion yn flynyddol ac fe'u pennir yn annibynnol ar unrhyw argymhelliad a wneir gan y DDRB ar gynyddu gwerthoedd contract deintyddion.

O fis Ebrill 2006 tan 2012, penderfynwyd peidio â chynyddu lefel ffioedd cleifion yng Nghymru a wnaeth aros yn ddigyfnewid fel a ganlyn: Band 1, £12.00; Band 2, £39.00; Band 3, £177.00; a chwrs o driniaeth Brys £12.00. Cynyddwyd y ffioedd bob blwyddyn tan 2020, ac eithrio yn 2016. Hwn fydd y cynnydd cyntaf ers y pandemig COVID-19.

Mae'r lefelau presennol fel a ganlyn:

| Band | Ffi |
|---|---|
| Band 1 – Diagnosis, cynllunio triniaeth a chynnal a chadw | £14.70 |
| Band 2 – Triniaeth | £47.00 |
| Band 3 – Darparu cyfarpar | £203.00 |
| Brys | £14.70 |

Diben y rheoliadau hyn yw hwyluso'r cynnydd yn y ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Bandiau 1, 2, a 3, ac am gwrs o driniaeth Brys o 1

Ebrill 2024. Mae’r Offeryn Statudol yn ymwneud â’r egwyddor o uwchraddio ffioedd statudol, nid cyflwyno polisi newydd neu newid y polisi presennol.

Ar hyn o bryd, mae ffioedd cleifion yng Nghymru yn sylweddol is nag yn Lloegr. Nid yw Adran Iechyd y DU wedi dynodi a fydd ffioedd cleifion yn cynyddu yn Lloegr o fis Ebrill 2024. Cafodd y ffioedd yn Lloegr eu cynyddu y llynedd ac, ar wahân i yn ystod blynyddoedd y pandemig (2021/22 a 2022/23), maent wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2006, ac eithrio yn 2010.

| **Ffioedd Cleifion Deintyddol (enghraifft o ofal/triniaeth)** | **Cymru 2023-24** | **Lloegr 2023-24** | **Gwahaniaeth £ / % yn uwch** |
|---|---|---|---|
| Band 1 (archwiliadau, pelydrau-x, digennu a llathru) | £14.70 | £25.80 | £11.10 / 76% |
| Band 2 (llenwadau, echdyniadau, triniaeth sianel y gwreiddyn) | £47.00 | £70.70 | £23.70 / 50% |
| Band 3 (coronau, dannedd gosod a phontydd) | £203.00 | £306.80 | £103.80 / 51% |
| Brys (gwasanaeth brys a thu allan i oriau) | £14.70 | £25.80 | £11.10 / 76% |

Mae pobl yng Nghymru eisoes yn talu ffioedd am ystod o wasanaethau, gan gynnwys gofal deintyddol y GIG, gofal cartref a ffioedd dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r rhain wedi’u pennu ar lefel is nag yn Lloegr ac mae ystod o esemptiadau ar gael i bobl ar incwm isel ac i’r rhai sydd ar fudd-daliadau.

Gan fod cyllideb Llywodraeth Cymru o dan bwysau mor eithafol, bu’n angenrheidiol inni ystyried yn ofalus a allai – ac a ddylai – cyllid ychwanegol gael ei godi trwy gynyddu ffioedd am ystod o wasanaethau wrth inni barhau i sicrhau ein bod yn diogelu’r rhai sydd lleiaf abl i fforddio ffioedd uwch.

Mae Rheoliad 2 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn cynyddu’r ffi ddeintyddol bresennol ar gyfer cwrs o driniaeth Bandiau 1, 2, a 3, ac am gwrs o driniaeth Brys. Mae’r ffioedd newydd fel a ganlyn:

| | **Ffi'r Claf** | **Cynnydd** | **Cynnydd (%)** |
|---|---|---|---|
| **Band 1** | £20.00 | £5.30 | 36.1 |
| **Band 2** | £60.00 | £13.00 | 27.7 |
| **Band 3** | £260.00 | £57.00 | 28.1 |
| **Brys** | £30.00 | £15.30 | 104.1 |

Mae’n bwysig nodi bod y refeniw o ffioedd cleifion deintyddol yn cael ei gadw gan y byrddau iechyd i’w fuddsoddi mewn gwasanaethau deintyddol.

**5. Ymgynghori**

Gweler Rhan 2.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Yr opsiynau

Ar gyfer 2022/23 (y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf), roedd cyfanswm refeniw o ffioedd cleifion y byrddau iechyd yn £22.5m, o'i gymharu â £36.2m yn 2018/19 (y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf cyn y pandemig COVID-19). Yn ôl y rhagolygon ar gyfer 2023/24, bydd ffioedd cleifion y byrddau iechyd oddeutu £21.7m. Serch hynny, mae'n bwysig pwysleisio mai canllaw dangosol yn unig o'r swm a godir o ffioedd cleifion y gellir ei ddarparu. Mae nifer o ffactorau na allwn ddylanwadu arnynt yn gallu, ac yn, effeithio ar y cyfanswm a gynhyrchir.

Trwy reoliadau i uwchraddio ffioedd statudol yn unig y gellir cynyddu ffioedd cleifion.

<u>Opsiwn 1 – Gwneud dim: Rhewi ffioedd cleifion</u>

**O blaid:** Yn debygol o gael ei groesawu gan y cyhoedd yn yr hinsawdd economaidd heriol bresennol pan fo incymau cyfartalog aelwydydd yn cael eu gwasgu.

**Yn erbyn:** Yn cyfyngu ar fuddsoddiad yng ngwasanaethau deintyddol y GIG. Yn annhebygol o gael ei groesawu gan y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau deintyddol yn eu hardal trwy gyllideb gyfyngedig ar adeg o gynnydd ym mhoblogaeth Cymru.

<u>Opsiwn 2 – Cynyddu ffioedd cleifion</u>

**O blaid:** Bydd unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei groesawu gan y byrddau iechyd i helpu i ddiogelu, tyfu a gwella gwasanaethau deintyddol y GIG. Mae adnoddau a fuddsoddwyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi cynyddu mynediad at wasanaethau deintyddol cyffredinol, gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig, ac wedi gwella iechyd y geg ymhlith pobl hŷn mewn cartrefi gofal a darparu cymorth ar gyfer diwygio'r contract deintyddol.

**Yn erbyn:** Ni fydd y cyhoedd yn croesawu unrhyw gynnydd ychwanegol mewn ffioedd. Fodd bynnag, bydd triniaeth ddeintyddol y GIG yn parhau am ddim i oddeutu hanner y cleifion sy'n derbyn gofal deintyddol y GIG, h.y. pawb o dan 18 oed, y rhai o dan 19 oed ac sy'n derbyn addysg amser llawn, menywod beichiog neu'r rhai sydd wedi cael babi yn y 12 mis blaenorol, a'r rhai sydd ar fudd-daliadau diweithdra penodol sy'n dibynnu ar brawf modd neu gredydau treth. Yn 2022/23, roedd 51.2% o'r holl gyrsiau o driniaeth a ddarparwyd wedi'u hesemptio rhag ffioedd cleifion deintyddol. Os nad yw pobl yn gymwys ar gyfer yr esemptiadau hyn yn awtomatig, efallai y bydd cymorth llawn neu rannol ar gael ar gyfer talu eu ffioedd deintyddol trwy Gynllun Incwm Isel y GIG.

<u>Opsiwn 3 – Lleihau ffioedd cleifion</u>

Mae'r opsiwn hwn wedi'i gynnwys ar gyfer dibenion cyflawnrwydd ond nid yw'n cael ei ystyried yn opsiwn ymarferol gan y byddai hyn yn arwain at leihad yn narpariaeth gwasanaethau deintyddol y GIG ar adeg o gynnydd yn y galw, a

cheir ardaloedd yng Nghymru lle y mae'n parhau i fod yn anodd cael mynediad at ddarpariaeth. Am y rheswm hwn, nid yw'r opsiwn hwn wedi'i gynnwys yn yr asesiad o gostau a manteision.

## 7. Costau a manteision

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mewn gwirionedd, byddai gwneud dim yn lleihau'r cyllid a fyddai ar gael i'r byrddau iechyd i'w fuddsoddi yng ngofal deintyddol y GIG.

### Opsiwn 2 – Cynyddu ffioedd cleifion

### Yr effaith ar y cyhoedd

Er bod y rhan fwyaf o driniaeth y GIG am ddim, codir rhai ffioedd. Cafodd ffioedd am driniaeth ddeintyddol y GIG eu cyflwyno gyntaf ym 1951, ac ers hynny mae un llywodraeth ar ôl y llall wedi bod o'r farn y dylai'r rhai sy'n gallu fforddio hynny wneud cyfraniad tuag at gost triniaeth ddeintyddol, yn amodol ar uchafswm ffi ar gyfer cwrs o driniaeth ddeintyddol.

Mae ffioedd cleifion yn cael eu talu gan gleifion sy'n oedolion sy'n gymwys am ffioedd. Band y driniaeth sy'n pennu lefel y ffi. Nid oes rhaid i'r mwyafrif o gleifion dalu am driniaeth ddeintyddol y GIG. Y prif grwpiau o gleifion nad ydynt yn talu ffioedd yw plant (o dan 18 oed); pobl ifanc 18 oed sydd mewn addysg amser llawn; menywod beichiog a mamau sy'n magu; oedolion ar incwm isel neu sy'n derbyn budd-daliadau penodol a chleifion sy'n cael eu trin yn yr ysbyty.

Mae archwiliadau deintyddol y GIG am ddim hefyd ar gael yng Nghymru ar gyfer y rhai o dan 25 oed a'r rhai dros 60 oed. Serch hynny, codir y ffi briodol am unrhyw driniaeth a roddir wedi hynny o ganlyniad i'r archwiliad am ddim. Nid yw'r consesiwn hwn yn berthnasol yn Lloegr.

Mae'n werth pwysleisio bod cyfraniad y claf tuag at driniaeth ddeintyddol cyn 2006 yn cynrychioli oddeutu 80% o'r gost i'r GIG. Ers 2006, yn sgil rhewi ffioedd am chwe blynedd a'r cynyddiadau cymedrol dilynol, mae cyfraniad y claf yng Nghymru wedi gostwng erbyn hyn i rhwng 47-55% o'r gost i'r GIG (2022-23).

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r contract deintyddol yn hyrwyddo darpariaeth o ofal deintyddol ataliol sy'n seiliedig ar risg ac anghenion, a hefyd fod practisau yn gweithio gyda chleifion i gyd-gynhyrchu canlyniadau y cytunwyd arnynt syn cynnwys hunanofal fel elfen bwysig. Mae ffi Band 1 yn talu am yr archwiliad deintyddol, sy'n cynnwys gofal ataliol, cyngor ac asesiad o anghenion clinigol.

Yn gyffredinol, yn 2022-23, roedd 659,700 (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf) o gyrsiau o driniaethau ar gyfer oedolion y gellid codi ffi amdanynt. Mae hyn yn

ostyngiad o 40% o'i gymharu â 2018-19 (y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf cyn y pandemig COVID-19 y'i defnyddir ar gyfer pob cymhariaeth yn y ddogfen hon). Roedd cyfanswm y ffioedd cleifion ar gyfer 2022/23 yn £22.7 miliwn, gostyngiad o £13.7m o'i gymharu â 2018-19.

Yn 2022-23, roedd 313,100 (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf) o driniaethau ar gyfer oedolion a oedd wedi'u hesemptio rhag talu ffioedd a 379,900 (wedi'i dalgrynnu i'r cant agosaf) o driniaethau ar gyfer plant a oedd hefyd wedi'u hesemptio rhag unrhyw ffioedd. Fel cyfran o'r holl driniaethau a ddarparwyd, mae nifer yr oedolion sydd wedi'u hesemptio rhag ffioedd wedi gostwng 6% ac mae nifer y plant wedi cynyddu 3% o'i gymharu â 2018-19.

Yn 2022-23, roedd ychydig o dan 49% o'r holl gyrsiau o driniaeth ar gyfer oedolion sy'n talu o'i gymharu â bron i 46% yn 2018-19. Roedd y gyfran hon yn amrywio ar draws y byrddau iechyd yn ôl proffil y boblogaeth o gleifion yn lleol. Cofnodwyd y canran isaf o driniaethau ar gyfer oedolion sy'n talu yn Hywel Dda (44%), ac roedd y ganran uchaf ym Mhowys (57%).

**Canran y cyrsiau o driniaeth yn ôl math o glaf a band triniaeth, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023**

| | **Oedolyn Esempt** | **Plentyn** | **Oedolyn y Gellir Codi Ffi Arno** |
|---|---|---|---|
| **Band 1** | 53.4% | 74.6% | 41.8% |
| **Band 2** | 24.0% | 19.1% | 35.2% |
| **Band 3** | 6.5% | 0.2% | 5.0% |
| **Brys** | 16.1% | 6.0% | 18.0% |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfran y cyrsiau o driniaethau ym mhob band triniaeth ar gyfer pob math o glaf. Triniaethau Band 1 oedd y gyfran uchaf o driniaethau ym mhob categori o glaf, fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio o dri chwarter y triniaethau ar gyfer plant i 42% o'r triniaethau ar gyfer oedolion y gellir codi ffi arnynt. Triniaethau Band 2 oedd bron i draean o'r holl driniaethau ar gyfer oedolion y gellir codi ffi arnynt. Rhoddwyd cyfran uwch o driniaethau brys i oedolion nag i blant.

**Effaith ar y sector preifat, llywodraeth leol a'r trydydd sector**

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar y sector preifat, llywodraeth leol na'r trydydd sector.

**Effaith ar ymarferwyr deintyddol**

Bydd angen i ymarferwyr deintyddol fod yn ymwybodol o'r newidiadau i sicrhau eu bod yn codi'r ffi gymwysadwy. Bydd hefyd angen i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ddiwygio eu systemau TG i adlewyrchu'r lefel uwch o ffioedd deintyddol a gaiff eu gwrthbwyso yn erbyn taliadau sy'n ddyledus i gontractwyr. Rydym yn disgwyl i'r costau hyn fod yn fach iawn. Yn ogystal â thalu deintyddion am driniaethau'r GIG y maent yn eu darparu, mae

Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG hefyd yn monitro ac yn darparu cyfres o ddata rheoli contractau ar ran y byrddau iechyd yng Nghymru.

Bydd y byrddau iechyd, y cyhoedd a deintyddion yn cael eu hysbysu am y ffioedd deintyddol newydd. Bydd Poster Ffioedd Deintyddol y GIG yn cael ei ddiweddaru a'i ddosbarthu i'r byrddau iechyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofyniad contractiol fod y poster yn cael ei arddangos mewn ystafelloedd aros practisau deintyddol.

**Manteision**

Mae'r cynnydd yn y ffioedd cleifion yn cynrychioli cynnydd mewn refeniw i'r GIG. Mae'n bwysig pwysleisio y bydd yr holl incwm ychwanegol a godir yn cael ei ailfuddsoddi'n uniongyrchol yn ôl i mewn i ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru.

**8. Ymgynghori**

Mae'r byrddau iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau deintyddol sy'n diwallu anghenion lleol a'r agenda ehangach ar gyfer iechyd y geg. Mae hyn yn golygu y bydd byrddau iechyd yn gallu datblygu gwasanaethau sy'n adlewyrchu gofynion a blaenoriaethau lleol. Rhaid cyflawni hyn trwy gyllideb ddeintyddol gyffredinol gyfyngedig.

O ganlyniad, ni chynhaliwyd ymarfer ymgynghori. Mae dyraniadau cyllideb ddeintyddol gofal sylfaenol ar gyfer y byrddau iechyd yn net o ffioedd cleifion. Pan gynyddir ffioedd cleifion, bydd hyn yn cynhyrchu rhagor o incwm o ffioedd i'r byrddau iechyd gan roi'r cyfle iddynt ailfuddsoddi'r incwm ychwanegol mewn gwella gwasanaethau deintyddol.

Mae ffioedd deintyddol yn cynrychioli cyfraniad pwysig at gost gyffredinol gwasanaethau deintyddol. Bydd y swm a godir yn dibynnu ar lefel a math y gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol a ddarperir gan y byrddau iechyd, cyfran y cleifion sy'n talu ffioedd sy'n cael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG a chymhlethdod y driniaeth a dderbyniant.

Mae ffioedd cleifion yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan ystyried y ddarpariaeth o wasanaethau, fforddiadwyedd a nifer o ffactorau, gan gynnwys y Gyfradd Chwyddiant a chyfanswm lefel yr incwm o ffioedd sy'n debygol o gael ei godi. Ystyrir hefyd yr effaith ar dalwyr ffioedd, a barn y byrddau iechyd a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru.

Rydym wedi hysbysu'r proffesiwn deintyddol, a gynrychiolir gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru a Phwyllgor Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cymru, am y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd.

Cafodd y penderfyniad i gynyddu ffi Band 1 o £14.70 i £20.00, ffi Band 2 o £47.00 i £60.00, ffi Band 3 o £203.00 i £260.00 a'r ffi am gwrs o driniaeth Brys o £14.70 i £30.00 o 1 Ebrill 2024 ei wneud ar ôl i'r ffactorau uchod gael eu hystyried a'u cloriannu.